Siarter Teithio Llesol
Lefel 2

1

Cymerwch gamau cyflym i leihau allyriadau carbon, gwella ansawdd yr aer a chefnogi iechyd a llesiant staff

2

Bodlonwch ymrwymiadau yn llawn o fewn dwy flynedd, a pharhewch i gynnal statws Lefel 2 yn rheolaidd wedi hyn

Ymrwymiadau cyffredinol *Yr holl sefydliadau i ymrwymo i'r rhain...*

Uwch arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodi uwch arweinydd penodol
Nodi arweinydd Gweithredol/Y Bwrdd penodol ar gyfer teithio iach a chynaliadwy, sy'n adrodd ar gynnydd yn rheolaidd ar weithredu'r mesurau yn y Siarter hon, ac unrhyw fentrau perthnasol eraill, i'r uwch dîm rheoli (neu gyfatebol)

Cytuno ar gyllideb gorfforaethol
Cytuno ar gyllideb gorfforaethol reolaidd benodol i gefnogi teithio iach a chynaliadwy, gan gynnwys seilwaith a chyfleusterau ar eich safle(oedd) yn ôl y gofyn, a mentrau hyrwyddo a newid ymddygiad

Newid diwylliannol

Gweithredu rhaglen newid diwylliant
Gweithredu rhaglen newid diwylliannol gorfforaethol i hyrwyddo buddion teithio iach a chynaliadwy yn eang, a hynny gydag ymgysylltiad parhaus â staff. Dylid cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan gynnwys digwyddiadau a chynadleddau, ar safle sy'n hawdd ei gyrraedd drwy gerdded, seiclo neu drafnidiaeth gyhoeddus, neu dylid darparu opsiwn ar-lein. Dylech hefyd ystyried cyflwyno gwobrwyon neu fentrau eraill ar gyfer staff sy'n teithio'n gynaliadwy

Gwrando ac ymateb i farn staff
Ymgysylltu â staff o leiaf bob blwyddyn i ddarganfod eu barn ar ba mor dda mae'r sefydliad yn eu cefnogi i deithio'n gynaliadwy, nodi unrhyw broblemau neu rwystrau cyffredin a godir, a gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol

Cymryd ymagwedd gynhwysol, gan gefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth
Cefnogi'r holl staff ac ymwelwyr i ddefnyddio opsiynau teithio cynaliadwy, ni waeth beth fo'u rhywedd, eu hoedran, eu hanabledd a'u hethnigrwydd. Dylai cyfleusterau a ddarperir ar gyfer cerdded a beicio gefnogi staff yn debyg. Er enghraifft, darparu digon o le ar gyfer beiciau wedi'u haddasu

Cefnogi gweithio gartref a gweithio ystwyth

Cynnig gweithio ystwyth i staff, fel y bo'n briodol i'r rôl
Cynnig a hyrwyddo'r gallu i weithio gartref neu o safle gwahanol i'r holl staff, ar gyfer cyfnod sy'n cyfateb i ddau neu ragor o ddiwrnodau yr wythnos ar gyfer gweithiwr llawn-amser, oni bai bod rheswm busnes neu lesiant penodol ar gyfer rôl neu unigolyn penodol sy'n atal hyn rhag digwydd

Polisïau sefydliadol a chynllunio teithio

Gweithredu cynlluniau teithio cynaliadwy
Datblygu, cynnal a gweithredu cynllun teithio cynaliadwy ar gyfer pob safle yn eich sefydliad, gan gynnwys safleoedd sydd heb staff neu sydd ag ychydig o staff yn bresennol fel arfer. Dylech fesur y rhaniad moddol teithio ar gyfer cymudo staff (lle bo hynny'n berthnasol) a theithio busnes o leiaf bob blwyddyn, er mwyn asesu cynnydd

Gwneud teithio cynaliadwy yn ddull diofyn ar gyfer teithio busnes
Ei gwneud yn ofynnol i deithio busnes fod yr opsiwn mwyaf cynaliadwy posibl, yn unol â'r hierarchaeth trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy. Dylid ad-dalu treuliau ar gyfer tacsis neu geir preifat dim ond os gellir dangos nad yw opsiynau mwy cynaliadwy (cerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus) yn bosibl neu os nad ydynt yn briodol. Dylai siart lif safonol i weithwyr ei dilyn wrth ystyried teithio busnes gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau hon, a dylech hyrwyddo argaeledd costau teithio ar gyfer teithio cynaliadwy. Gallech hefyd ystyried dichonoldeb lleihau'r lwfans ar gyfer defnydd car preifat. Dylai staff gael digon o amser yn eu diwrnod i deithio i gyfarfodydd wyneb yn wyneb drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus, lle bynnag y bo'r opsiynau hyn ar gael.

Ymrwymiadau cyffredinol (parhad)

Polisïau sefydliadol a chynlluniau teithio (parhad)

Darparu cynlluniau teithio wedi'u personoli i staff
Cynnwys cynlluniau teithio wedi'u personoli yn rhan reolaidd o'r rhaglen ymsefydlu ar gyfer gweithwyr newydd, a chynnig pellach yn rheolaidd wedi hynny i'r holl staff presennol, gan gefnogi ac annog staff i deithio drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus fel y dull diofyn

Gosod targedau newid moddol uchelgeisiol
Gosod targedau mewnol uchelgeisiol i leihau cyfran y staff sy'n cymudo i'r gwaith mewn car preifat bob dydd. Ar gyfer sefydliadau mawr (dros 1,000 o staff), neu sefydliadau llai lle bo hynny'n briodol, dylid cytuno ar dargedau ar wahân ar gyfer adrannau neu isadrannau mawr. Lle mae dros 50% o staff yn cymudo mewn car preifat ar hyn o bryd, dylid gosod isafswm gostyngiad o 10% o'r gyfradd gyfredol y flwyddyn (e.e. os yw 60% o staff yn teithio i'r gwaith mewn car preifat ar hyn o bryd, dylai'r targed fod yn isafswm gostyngiad o 6% bob blwyddyn). Gall osgoi cymudo drwy weithio gartref gyfrannu at gyflawni'r targed

Ymrwymiadau wedi'u teilwra *Os oes gan eich sefydliad o leiaf un gweithle parhaol, dewiswch ddau ymrwymiad isod, neu fel arall dewiswch un. Os byddwch yn darparu cerbydau neu barcio ar gyfer staff, rhaid i chi ddewis o leiaf un ymhlith y categoriau terfynol*

Cymell cerdded a beicio

Cyflawni achrediad Cyflogwr Cyfeillgar i Feiciau
Cyflawni achrediad Cyflogwr Cyfeillgar i Feiciau ar lefel Efydd, neu ar lefel sydd un yn uwch na'ch lefel gyfredol os oes gennych wobr Efydd neu Arian eisoes

Cymell defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus

Trefnu a hyrwyddo gostyngiadau staff ar gyfer holl ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus
Darparu gostyngiadau staff ar deithio gyda holl ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw gynlluniau rhannu beiciau, sy'n gwasanaethu eich gweithleoedd. Gallai fod cynlluniau ar gael eisoes ar gyfer rhai o'r rhain, ac efallai y bydd angen negodi lleol gyda darparwr y drafnidiaeth. Dylid hyrwyddo gostyngiadau yn eang i staff.

Datgymell defnyddio ceir preifat

Cyfyngu neu leihau meysydd parcio i staff
(i) Dylid cyfyngu meysydd parcio i staff i uchafswm o 3 diwrnod yr wythnos ar gyfer pob gweithiwr sydd â'r opsiwn i weithio gartref neu ar safle arall (gydag eithriadau y cytunwyd arnynt lle bo hynny'n briodol, e.e. anabledd, sifftiau nos, iechyd a llesiant); **neu** (ii) Dylech leihau'r nifer gyfredol o fannau parcio i staff a ddarperir o leiaf 30% (yn gymesur â nifer y gweithwyr); **neu** (iii) Dylech gadw o leiaf 30% o fannau i'w defnyddio gan geir cronfa neu geir allyriadau isel iawn yn unig, a dylech orfodi hyn. Dylai gostyngiadau mewn mannau parcio fod yn deg ar draws gweithwyr yr effeithir arnynt. Efallai y byddwch hefyd yn ystyried cyflwyno neu gynyddu tâl ar gyfer parcio, yn ogystal ag unrhyw rai o'r mesurau hyn.

Lleihau allyriadau 'fflydoedd llwyd'
Lle nad oes modd osgoi defnyddio ceir preifat ar gyfer teithio busnes yn ystod y diwrnod gwaith, dylech ei gwneud yn ofynnol i staff ddefnyddio cerbydau cronfa allyriadau isel iawn (a ddarperir gan y sefydliad), neu gerbydau clwb ceir allyriadau isel, yn hytrach na cherbydau personol

Rhagor o wybodaeth a chymorth: **teithiollesol.cymru/lefel2**

Healthy Travel Charter
Level 2

1

Take rapid steps to reduce carbon emissions, improve air quality and support staff health and well-being

2

Meet commitments fully within two years, and continue routinely after this to maintain Level 2 status

Universal commitments *All organisations commit to these...*

Senior leadership and accountability

Identify a named senior lead
Identify a named Executive/Board lead for healthy and sustainable travel, who regularly reports progress on implementing the measures in this Charter, and any other relevant initiatives, to the senior management team (or equivalent)

Agree a corporate budget
Agree a dedicated recurrent corporate budget to support healthy and sustainable travel, including infrastructure and facilities on your site(s) as required, and promotional and behaviour change initiatives

Culture change

Implement a culture change programme
Implement a corporate cultural change programme to widely promote the benefits of healthy and sustainable travel, with ongoing staff engagement. Face-to-face meetings, including events and conferences, should be held at a site easily accessible by walking, cycling or public transport, or an online option provided. You may also consider introducing prize draws or other incentives for staff travelling sustainably

Listen and respond to staff views
Engage with staff at least annually to find out their views on how well the organisation is supporting them to travel sustainably, identify any common issues or barriers raised, and take action to address these wherever feasible and appropriate

Take an inclusive approach, supporting equality and diversity
Support all staff and visitors to use sustainable travel options, regardless of gender, age, disability and ethnicity. Facilities provided for walking and cycling should support staff similarly, for example providing sufficient space for adapted cycles

Support home and agile working

Offer agile working to staff, as appropriate to role
Offer and promote to all staff the ability to work from home or an alternate base for the equivalent of two or more days per week for a full-time employee, unless there is a specific business or welfare reason for a particular role or individual which prevents this

Organisational policies and travel planning

Implement sustainable travel plans
Develop, maintain and implement a sustainable travel plan for each site of your organisation, including sites with no or few staff routinely present. You should measure the travel modal split for staff commutes (where relevant) and business travel at least annually, to assess progress

Make sustainable travel the default for business travel
Require business travel to be made by the most sustainable option possible, in line with the sustainable transport hierarchy. Expenses for taxi or private car should be reimbursed only if it can be demonstrated that more sustainable options (walking, cycling or public transport) are not possible or are inappropriate. A standard flowchart for employees to follow when considering business travel should support this decision-making process, and you should promote the availability of travel expenses for sustainable travel. You may also consider the feasibility of reducing the allowance for private car use. Staff should have sufficient time in their day to travel to face-to-face meetings by walking, cycling, or public transport, whenever these options are available.

Universal commitments (cont.)

Organisational policies and travel planning (cont.)

Provide personalised travel planning to staff
Include personalised travel planning as a routine part of the induction programme for new employees, with a further offer at regular intervals thereafter to all existing staff, supporting and encouraging staff to travel by walking, cycling or public transport as the default

Set ambitious modal shift targets
Set ambitious internal targets to reduce the proportion of staff commuting to work by private car each day. For large organisations (over 1,000 staff), or smaller organisations where appropriate, separate targets should be agreed for major departments or divisions. Where over 50% of staff currently commute by private car, a reduction by a minimum of 10% of the current rate per year should be set (e.g. if 60% of staff currently travel to work by private car, the target should be a reduction of at least 6% per year). Avoiding a commute by working from home can contribute to achieving the target

Tailored commitments *If your organisation has at least one permanent workplace, choose two commitments below, otherwise choose one. If you provide vehicles or parking for staff you must choose at least one from the final category*

Incentivise walking and cycling

Achieve Cycle Friendly Employer accreditation
Achieve Cycle Friendly Employer accreditation at Bronze level, or a level one higher than your existing level if you already have a Bronze or Silver award

Incentivise public transport use

Arrange and promote staff discounts for all public transport providers
Provide staff discounts on travel with all major providers of public transport, including any cycle share scheme, serving your workplaces. There may already be schemes available for some of these, while some may require local negotiation with the transport provider. Discounts should be widely promoted to staff.

Disincentivise private car use

Restrict or reduce staff car parking
(i) Restrict staff car parking to a maximum 3 days per week for every employee who has the option to work from home or an alternative base (with agreed exemptions where appropriate, e.g. disability, night shifts, health and well-being); **or** (ii) Reduce the existing number of staff car parking spaces provided by at least 30% (in proportion to employee headcount); **or** (iii) Reserve at least 30% of spaces for use by ultra-low emission or pool cars only, and enforce this. Reductions in car parking spaces should be equitable across affected employees. You may also consider introducing or increasing charging for car parking in addition to any of these measures.

Reduce 'grey fleet' emissions
Where private car use is unavoidable for business travel during the working day, require staff to use ultra low emission pool vehicles (provided by the organisation), or low emission car club vehicles, rather than personal vehicles

More info and support: **healthytravel.wales/level2**

10 May 2022 Final draft